# Atodiad 6 – Tystiolaeth yn ymwneud â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

## Tystiolaeth gan y Cyngor

1. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn darparu gwasanaeth mewnol ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr ifanc, gyda'r holl gymorth ac asesiadau gofalwyr yn cael eu harwain gan Dîm Gofalwyr penodol. Eglurodd y Cyngor, yn fuan ar ôl i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") gael ei deddfu, ei fod wedi nodi'r angen am wasanaeth dynodedig i sicrhau bod hawliau gofalwyr yn cael eu cynnal. Dywedodd fod ei Dîm Gofalwyr dynodedig yn cefnogi gofalwyr sy'n oedolion a gofalwyr ifanc nad ydynt yn ymwneud â'i Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd y Cyngor nad oedd yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'r gwasanaethau oedd ar gael i ofalwr os oedd y person sy'n derbyn gofal eisoes yn hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn derbyn Cynllun Gofal a Chymorth. Dywedodd y gallai cyswllt gan ofalwr sy'n gofalu am berson nad yw'n hysbys i'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn aml olygu bod anghenion gofal a chymorth y sawl sy'n derbyn gofal yn cael eu hasesu.

2. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, ar ôl ymgynghori â dros 80 o ofalwyr yn 2017, ei fod wedi nodi bod gofalwyr eisiau cefnogaeth anffurfiol, gweithgareddau a chyfleoedd i gwrdd â gofalwyr eraill, gwybodaeth, cymorth i gymryd seibiant o'u rôl gofalu a chael cyswllt uniongyrchol â'r Tîm Gofalwyr am Wybodaeth, Cyngor a Chymorth cyflym ("IAA"). Dywedodd ei fod wedi buddsoddi amser ac egni sylweddol i greu rhwydweithiau gofalwyr, ar-lein ac wyneb yn wyneb. Dywedodd ei fod wedi sicrhau cyllid i ddarparu'r gwasanaethau a'r mentrau hyn, o un flwyddyn i'r llall. Dywedodd y Cyngor y gall gofalwyr gael mynediad at y Tîm Gofalwyr gyda neu heb asesiad o anghenion gofalwr a bod y penderfyniad hwn wedi'i wneud ar ôl ymgynghori â gofalwyr lleol ynghylch pa gefnogaeth yr oeddent ei heisiau.

3. Dywedodd y Cyngor fod adnabod gofalwyr yn hen anhawster gan nad oedd llawer o bobl a oedd yn darparu gofal i anwyliaid yn adnabod eu hunain fel gofalwr ac, mewn rhai achosion, nid oedd pobl yn 'eisiau' cydnabod eu hunain fel gofalwr. Dywedodd ei bod yn anodd dod o hyd i ateb a fyddai'n cyrraedd pob gofalwr. Dywedodd y Cyngor ei fod wedi ffurfio partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd lleol mewn ymgais i godi ymwybyddiaeth o'r rôl ofalu a hyrwyddo hawliau gofalwyr, ond nid oedd hyn bob amser wedi arwain at fwy o ofalwyr yn cael eu hadnabod. Dywedodd mai'r ffordd fwyaf effeithiol o godi ymwybyddiaeth oedd ar

lafar, gyda gofalwyr eisoes yn hysbys i'r Cyngor yn rhannu eu profiadau gyda gofalwyr eraill, neu pan fyddant yn cynnal digwyddiadau cyhoeddus.  Dywedodd y Cyngor ei fod yn hyrwyddo dull "dim drws anghywir" gyda'i Dîm Gofalwyr; ni waeth am wasanaeth y Cyngor sydd â chyswllt â gofalwyr a'r rhai sy'n derbyn gofal, bydd gofalwyr yn cael eu cyfeirio at ei Dîm Gofalwyr, yn cael cynnig asesiad o anghenion gofalwyr ac yn darparu sgwrs anffurfiol, cyngor, asesiad o anghenion gofalwyr, neu'n cael eu hychwanegu at ei restr bostio. Dywedodd y Cyngor bod hyn yn caniatáu i'r gofalwr dderbyn pa bynnag gefnogaeth sydd ei hangen arno ar y pryd ac mae'n caniatáu i ofalwyr gyfarwyddo sut maen nhw eisiau i'r Cyngor weithio gyda nhw.  Dywedodd y Cyngor, pe bai amgylchiadau gofalwr yn fwy cymhleth, y byddai'r Tîm Gofalwyr yn cyfeirio'r gofalwr at Weithiwr Cymdeithasol, a fyddai'n gweithio'n uniongyrchol gyda'r gofalwr.

4. Dywedodd y Cyngor, gan nad oedd gofyniad yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, na gan Lywodraeth Cymru, i gofnodi'r wybodaeth a'r cyngor a roddodd i ofalwyr, bod llawer iawn o waith wedi'i gwblhau gan y Tîm Gofalwyr nad oedd wedi'i gofnodi ac nad oedd wedi'i gynnwys pan oedd yn darparu data'n ymwneud â nifer yr asesiadau a gofnodwyd ganddo, i'r ymchwiliad hwn.  Dywedodd y byddai cymorth yn cael ei gofnodi drwy asesiad ac ymyriadau dilynol a gofnodwyd yn nodiadau achos y gweithiwr a ddyrannwyd. Dywedodd y Cyngor ei fod yn darparu mynediad agored i'r Tîm Gofalwyr, gan ganiatáu i ofalwyr gysylltu â'r Tîm p'un a oes ganddynt atgyfeiriad agored ai peidio.  Dywedodd nad yw rhai o'r gwasanaethau a ddarperir i gefnogi gofalwyr yn dod o dan ymbarél statudol oherwydd nad yw gofalwyr am gael asesiad ffurfiol, a oedd yn groes i'r ddeddfwriaeth, ond yr oedd gofalwyr yn gwybod bod cymorth anffurfiol ar gael pe bai ei angen arnynt.

5. Eglurodd y Cyngor y gallai gofalwr ofyn am asesiad o anghenion gofalwr a'i dderbyn mewn gwahanol ffyrdd:

- Drwy gysylltu â'i wasanaeth IAA wyneb yn wyneb neu drwy drydydd parti. Dywedodd y byddai gofalwr yn cael cynnig asesiad o anghenion gofalwr pe bai'n cysylltu ar ran person ag anghenion gofal ond nad oedd wedi sylweddoli ei fod yn ofalwr ei hun.
- Fe'i cynigir yn ystod asesiad Gwaith Cymdeithasol neu Therapi Galwedigaethol o berson a allai fod angen gofal a chymorth ei hun ac sy'n cael cefnogaeth "anffurfiol" gan eraill.
- Fe'i cynigir gan y Tîm Gofalwyr, yn dilyn ymholiadau a wnaed mewn digwyddiadau cymdeithasol i ofalwyr.  Dywedodd y Cyngor, petai cynnig yn cael ei dderbyn, bod yr asesiad yn cael ei gwblhau, a bod cynllun yn cael ei nodi.  Pe

bai gofalwr yn gwrthod y cynnig, byddai'r gofalwr yn dal i gael sgwrs 'Beth sy'n Bwysig' i sicrhau bod IAA ar gael.  Dywedodd, pe bai'r asesiad yn tynnu sylw at yr angen am 'Ran 2', ei fod yn cael ei drosglwyddo'n ôl i Weithiwr Cymdeithasol i symud ymlaen i Ran 2 (gweler paragraff 6 isod).

6. Eglurodd mai asesiad Rhan 1 oedd y sgwrs gychwynnol gyda gofalwr, i nodi beth oedd eu canlyniadau personol ac mai dyma oedd "sylfaen" y sgwrs 'Beth sy'n Bwysig'. Dywedodd fod y sgwrs Beth sy'n Bwysig wedi arwain at sgwrs gydweithredol i helpu i nodi sut y gallai'r Cyngor helpu i gefnogi'r gofalwr, o ran IAA, i'w helpu i ddod o hyd i atebion. Dywedodd y Cyngor, lle nodwyd na ellid cyflawni canlyniadau personol y gofalwr oni bai eu bod yn cael eu hasesu ymhellach, er mwyn cael gwybod a fyddai angen Cynllun Cymorth i Ofalwyr ac na ellid cyflawni eu canlyniadau drwy ddarparu IAA, byddai Rhan 2, a gwblhawyd gan weithiwr Gwaith Cymdeithasol proffesiynol cymwysedig neu gofrestredig, yn cael ei sbarduno.  Dywedodd y byddai'r asesiad Rhan 2 yn edrych ar ystod wahanol o atebion ac o bosibl yn ystyried a fyddai angen cynllun cymorth i rieni.  Dywedodd y gallai canlyniad asesiad Rhan 2 fod yn gynllun cymorth.

7. Dywedodd y Cyngor ei fod yn ymfalchïo yn ei gyfathrebu â gofalwyr a'r wybodaeth a gyhoeddir i addysgu unigolion am yr agenda gofalwyr, i gynorthwyo gofalwyr 'cudd' i gydnabod eu rôl a'u hawl i alluogi mynediad at IAA mewn ffurfiau hygyrch, er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn ymwybodol o'r ffordd y gallant ofyn am asesiad.  Darparodd y Cyngor gopïau o'i daflenni Gwybodaeth i Ofalwyr, cylchlythyrau a phosteri Wythnos Gofalwyr a Diwrnod Hawliau Gofalwyr i'r ymchwiliad.  Dywedodd ei fod hefyd yn cynnal 4 Grŵp Gofalwyr dynodedig bob mis mewn gwahanol rannau o'r fwrdeistref a llawer o grwpiau anffurfiol sy'n seiliedig ar yr hyn y mae gofalwyr yn gofyn amdano.  Dywedodd y Cyngor ei fod yn cynnal diwrnodau gweithgaredd ar gyfer gofalwyr ifanc, lle gallant ddod â'u teulu a'u brodyr a'u chwiorydd gyda nhw.  Dywedodd y Cyngor ei fod yn ceisio peidio â gwahanu gwahanol grwpiau o ofalwyr oherwydd, er gwaethaf eu demograffeg a'r rhai y maent yn gofalu amdanynt, roedd gan ofalwyr lawer yn gyffredin bob amser ac roeddent yn gallu rhannu profiadau.  Dywedodd y Cyngor fod y Tîm Gofalwyr hefyd yn gweithio gydag ysgolion a cholegau i ganfod a chefnogi gofalwyr ifanc neu oedolion ifanc sy'n ofalwyr.

8. Rhoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fanylion i'r ymchwiliad am ddigwyddiadau ar gyfer gofalwyr ifanc a digwyddiadau 'pontio' mewn ysgolion.  O ran pontio gofalwyr ifanc i fod yn oedolion, dywedodd y Cyngor nad yw'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu yn newid, oherwydd bod y gwasanaethau ar gyfer gofalwyr ifanc ac oedolion sy'n ofalwyr yn cael eu

darparu'n fewnol. Dywedodd ei fod yn sicrhau bod y person ifanc yn cael cefnogaeth y gweithwyr proffesiynol angenrheidiol wrth iddynt bontio ym myd addysg neu waith, neu fod ganddo fynediad at ei gynllun grantiau a bod gan y person sy'n derbyn gofal asesiad cyfredol i sicrhau bod digon o gefnogaeth ganddo, i alluogi oedolion ifanc sy'n ofalwyr i gael mynediad at addysg neu waith.

9. Dywedodd y Cyngor nad oedd yn ystyried bod gofalwyr yn wynebu unrhyw rwystrau rhag cael asesiad o'u hanghenion. Dywedodd "rydym yn gadael i'r gofalwyr benderfynu", pan ddaw'n fater o asesu eu hanghenion neu eu hailasesu wedyn. Dywedodd y Cyngor ei fod yn annog gofalwyr ac yn eu hatgoffa o'u hawl i gael asesiad neu ailasesiad. Dywedodd y Cyngor ei fod, lle bynnag y bo modd, yn ceisio lleihau'r risg o ofalwr yn gorfod ailadrodd ei hun, felly, wrth ailasesu anghenion gofalwr, cynigir iddynt naill ai adolygu'r asesiad blaenorol i ganfod beth oedd wedi newid, neu i ddechrau asesiad newydd. Dywedodd hefyd, lle bo'n bosibl, y byddai'r un Gweithiwr Cymorth i Ofalwyr yn cynnal yr ailasesiad.

10. Dywedodd y Cyngor ei fod, cyn y pandemig, wedi sefydlu cynllun lle'r oedd y Cyngor yn annog ac yn hyrwyddo cynllun ar gyfer gofalwyr, ar ôl i'w hanghenion gael eu hasesu neu beidio, i wneud cais am grant bach ar gyfer nifer o fentrau gwahanol, er enghraifft, cymorth gyda hyfforddiant, dychwelyd i'r gwaith/astudio, gwneud eu rôl gofalu yn llai anodd neu gael rhywfaint o seibiant. Dywedodd y Cyngor y datblygwyd hyn wedyn yn gynllun ar gyfer Gwent gyfan, oherwydd ei boblogrwydd a'i symlrwydd, ac nad oedd yn rhaid i ofalwyr gael eu hasesu gan Weithiwr Cymdeithasol ac nad oedd yn destun prawf modd. Dywedodd fod y cynllun yn cael ei weinyddu gan 'Care Collective', sefydliad sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl.

11. Dywedodd y Cyngor ei fod ar hyn o bryd yn datblygu prosiect seibiant fel rhan o ranbarth Gwent, yn seiliedig ar gynllun Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru ("NEWCIS") 'Pontio'r Bwlch', a fyddai'n galluogi gofalwyr i gomisiynu a chynllunio eu seibiant eu hunain gan amrywiaeth o ddarparwyr ac mewn amrywiaeth o ddulliau. Dywedodd fod hyn wedi cael ei dreialu am y tro cyntaf gan NEWCIS yng Ngogledd Cymru a bod ei lwyddiant wedi ysbrydoli'r Cyngor i ddarparu'r un lefel o gefnogaeth i'w ofalwyr ei hun.

12. Dywedodd y Cyngor nad oedd rhestr aros ar gyfer asesiad o anghenion gofalwr, a chysylltwyd â'r gofalwr yn fuan ar ôl ei ddyrannu i Weithiwr Cymorth i Ofalwyr neu Weithiwr Cymdeithasol. Dywedodd fod ei Dîm Gofalwyr yn gweithio i sicrhau bod y cymorth a'r mynediad at asesiadau yn debyg ac yn gyfartal i bob gofalwr, beth bynnag fo'i oedran.

Dywedodd fod y gwasanaeth a ddarparai i ofalwyr yn ymestyn ymhellach o lawer na'r broses 'asesu angen' yn unig. Dywedodd ei fod yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau ar gyfer rhannu IAA. Tynnodd y Cyngor sylw at y canlynol:

- Er nad yw'n ofynnol i'r Cyngor gadw cofrestr o ofalwyr o dan y rheoliadau statudol, mae gan ei dudalennau cyfryngau cymdeithasol preifat, ar gyfer pobl sydd wedi dangos eu bod yn ofalwyr, 1214 aelod.
- Mae rhestr ddosbarthu'r cylchlythyr yn cynnwys 2019 o aelodau.
- Mae ganddo 1033 o oedolion sy'n ofalwyr ac mae 213 o ofalwyr ifanc wedi cofrestru ar ei dudalen Facebook.
- Roedd 79 o ofalwyr ifanc wedi cofrestru ar gyfer ei gynllun 'ID gofalwyr ifanc'.
- Mae ganddo 1851 o ofalwyr wedi cofrestru ar ei restr bostio i dderbyn gwybodaeth gan ei Dîm Gofalwyr.
- Yn 2022/2023, bu'n ymgysylltu'n bersonol â 408 o ofalwyr sy'n oedolion a 56 o ofalwyr ifanc, drwy gynnal 51 o ddigwyddiadau ar gyfer gofalwyr sy'n oedolion a 36 o ddigwyddiadau ar gyfer gofalwyr ifanc.
- Roedd 22 o ofalwyr wedi elwa ar grantiau gofalwyr 'untro' ac roedd 134 o ofalwyr wedi cael seibiant 'amser allan' untro heb asesiad, drwy hunangyfeirio at gynlluniau sy'n cael eu rhedeg gan yr awdurdod lleol.
- Cyflwynodd 4108 o unigolion hawliad am daliad untro COVID-19 i ofalwyr Llywodraeth Cymru, ac roedd 2910 ohonynt yn gymwys ac wedi cael y taliad.

13. Dywedodd y Cyngor, os yw gofalwr yn byw yn ei ardal awdurdod lleol ond yn darparu gofal i rywun y tu allan i'r ardal, y byddai'n cynnal asesiad o anghenion y gofalwr. Dywedodd mai cytundeb rhanbarthol Gwent yw y byddai'r gofalwr wedyn yn gallu cael gafael ar gymorth i ofalwyr yn y ddwy ardal awdurdod lleol. Dywedodd y Cyngor, pan fydd gofalwr yn cysylltu ag ef sy'n gofalu am rywun y tu allan i'r ardal ranbarthol, y bydd yn cael sgwrs â'r awdurdod lleol lle mae'r unigolyn sy'n derbyn gofal yn byw, i gytuno pa awdurdod lleol fydd yn cwblhau asesiad o anghenion y gofalwr, os oes angen neu os gofynnir am hynny.

14. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili mai'r fframweithiau a oedd ar waith o dan y ddeddfwriaeth oedd yr hyn yr oedd ar y Cyngor ei angen, ond yr anhawster a ddaeth i'r amlwg oedd nad oedd gofalwyr bob amser eisiau asesiad drwy eu hawl eu hunain, na chael eu neilltuo. Dywedodd y Cyngor, yn 2022/2023, bod 156 o ofalwyr a gafodd gynnig asesiad drwy eu hawl eu hunain, wedi gwrthod hynny, sy'n golygu bod eu hasesiad wedi

cael ei gwblhau fel rhan o Asesiad Integredig ochr yn ochr ag asesiad o anghenion gofal a chymorth y person sy'n derbyn gofal. Dywedodd, pan wnaed hyn, fod hyn gyda chydsyniad datganedig y gofalwr a'r unigolyn sy'n derbyn gofal, yn unol â pharagraff 37 y Cod Ymarfer ar gyfer Rhan 3 y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Dywedodd y Cyngor, er bod hyn yn dderbyniol o ran gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, bod angen datblygu gwell adroddiadau pan oedd anghenion gofalwr yn cael eu hasesu fel rhan o'r asesiad o'r unigolyn sy'n derbyn gofal, yn hytrach nag fel unigolyn drwy ei hawl ei hun. Dywedodd, er y cofnodwyd bod person yn ofalwr a bod ei gofnod yn gysylltiedig â chofnod y person sy'n derbyn gofal a chofnodwyd yn yr Asesiad Integredig ei fod wedi gwrthod asesiad o anghenion drwy ei hawl ei hun, neu yn ei gyfanrwydd, nad oedd yn gallu tynnu'r data hwn o'i gronfa ddata gofnodi. Dywedodd y Cyngor ei fod wedi nodi bod hwn yn faes i'w ddatblygu o ganlyniad i'r ceisiadau a wnaed am wybodaeth yn ystod yr ymchwiliad hwn.

15. Roedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn cydnabod y gallai bod yn ofalwr fod yn rhan o hunaniaeth unigolyn. Dywedodd, pan nad oedd gofalwr yn gofalu am rywun annwyl mwyach, fod ganddo'r gallu i gysylltu gofalwyr nad oes ganddynt rôl ofalu mwyach a bod croeso iddynt barhau i fynychu grwpiau gofalwyr. Dywedodd y Cyngor y gall pobl nad ydynt bellach yn darparu gofal i anwylyd fod yn rhai o'i eiriolwyr gorau i helpu eraill i adnabod eu hunain fel gofalwyr.

16. Dywedodd y Cyngor ei fod ar hyn o bryd yn darparu rhaglen hyfforddiant mewn Cyfathrebu Cydweithredol, a gefnogir gan Gofal Cymdeithasol Cymru, i'w staff sy'n cynnal asesiadau, gan gynnwys ei holl Weithwyr Cymdeithasol, ymarferwyr ac aseswyr gofalwyr, i sicrhau dull gweithredu cyson, a chynorthwyo staff i gael sgyrsiau ehangach gyda gofalwyr i ddeall yn llawn sut y gellid eu cefnogi. Dywedodd y Cyngor mai'r bwriad oedd cyflwyno'r hyfforddiant i staff ar draws pob cyfeiriadur er mwyn cyrraedd staff nad oes ganddynt gyfrifoldeb uniongyrchol dros asesiadau o anghenion gofalwyr. Dywedodd y Cyngor ei fod hefyd yn sicrhau bod ei gynghorwyr yn ymwybodol o hawliau gofalwyr er mwyn iddynt allu rhoi gwybod i aelodau o'r cyhoedd y maent yn dod i gysylltiad â nhw, fel rhan o'u rôl yn y gymuned.

17. Dywedodd y Cyngor nad oedd ganddynt hyfforddiant ymwybyddiaeth penodol i ofalwyr ar gyfer staff ar draws y sefydliad ar hyn o bryd, ond ei fod wedi darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i'r holl staff pan ddaeth y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i rym. Dywedodd hefyd ei fod yn hyrwyddo hawliau gofalwyr yn rheolaidd ar draws y Cyngor i godi ymwybyddiaeth ymysg staff.

18. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fod y 5 awdurdod lleol ar draws Gwent, y Bwrdd Iechyd lleol a sefydliadau trydydd sector lleol yn cydweithio, fel rhan o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae is-grwpiau penodol o ofalwyr wedi sefydlu nifer o fentrau, gan gynnwys cael hysbysfyrddau gofalwyr mewn ysbytai, gweithio gyda fferyllfeydd i sicrhau bod gofalwyr yn gallu cael gafael ar feddyginiaeth ar gyfer eu person sy'n derbyn gofal ac ymchwilio i'r posibilrwydd o gael Hyrwyddwyr Gofalwyr mewn meddygfeydd. Dywedodd y Cyngor, er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o'r cynlluniau cyfredol a'r arferion gorau ledled Cymru, ei fod yn aelod gweithredol o Rwydwaith Dysgu a Gwella Gofalwyr Cymru Gyfan ("COLIN"), grŵp cenedlaethol sefydledig sy'n ystyried yr agenda genedlaethol mewn perthynas â gofalwyr, gydag aelodau o bob un o'r 22 awdurdod lleol, Byrddau Iechyd a sefydliadau'r trydydd sector. Dywedodd y Cyngor fod COLIN yn ystyried amrywiol gynlluniau, er enghraifft, defnyddio Taliadau Uniongyrchol ar gyfer gofalwyr drwy eu hunain, ac roedd yn gyfle i rannu arferion da rhwng ardaloedd a rhanbarthau. Dywedodd y Cyngor yr ymgynghorwyd â chynrychiolwyr COLIN ynghylch datblygu Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr Llywodraeth Cymru.

19. Dywedodd y Cyngor y byddai'n cynnig opsiwn i ofalwr o gael rhywun gyda nhw yn ystod yr asesiad i'w cefnogi ac, os nad oedd ganddynt unrhyw un i'w cefnogi, byddai'r Cyngor yn trefnu eiriolwr annibynnol ar eu cyfer. Dywedodd fod 'Gwasanaeth Mynediad at Eiriolaeth' Gwent yn darparu un pwynt cyswllt i ofalwyr sy'n oedolion ar gyfer gwybodaeth a chyngor am eiriolaeth. Eglurodd fod y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol yn cynnig ystod o wasanaethau eiriolaeth i ofalwyr ifanc.

20. Darparodd y Cyngor hefyd sawl enghraifft o adborth cadarnhaol yr oedd wedi'i dderbyn gan ofalwyr, gan gynnwys:

- "Mae'r [gofalwr ifanc] fel arfer mor swil ond roedd mor awyddus i ddod 'i ddigwyddiadau i ofalwyr ifanc' ac rwy'n meddwl ei fod wedi magu hyder bob tro".
- "Mae'r [gofalwr ifanc] wedi bod wrth ei fodd â'r grŵp hwn ac mae wedi bod mor dda iddo".
- "Dydych chi ddim yn deall faint rydych chi wedi helpu ni i gyd. Am waith gwych rydych chi'n ei wneud hefyd!"
- "Rydw i'n gwerthfawrogi eich holl gefnogaeth i [ofalwr ifanc], mae hi wrth ei bodd â'i hamser yn y grŵp".

- “Diolch i chi, ‘Tîm Gofalwyr’, am wneud yr hyn rydych chi’n ei wneud i ni i gyd, rwy’n credu y gallaf i siarad drosom ni i gyd a dweud ein bod ni’n ddiolchgar iawn”.
- “Diolch o galon am roi o’ch amser i siarad â mi heddiw ac am roi cyngor mor werthfawr i mi. Mae mor galonogol gweld bod pobl yno a fydd yn fy helpu. Gobeithio eich bod yn sylweddoli pa mor bwysig yw eich rôl a pha mor ddefnyddiol ydych chi i rywun fel fi”.
- “Roedd yn galonogol iawn ein bod yn gweithio gyda phobl mor broffesiynol, profiadol a phobl sy'n deall”.
- “Roedd gallu sgwrsio â rhywun am ein hanawsterau yn gwneud gwahaniaeth go iawn”.

21. Dywedodd y Cyngor nad oedd wedi cwblhau unrhyw archwiliadau o asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc a gofalwyr sy’n oedolion rhwng 2021 a 2023. Dywedodd, fodd bynnag, fod ganddo broses sicrhau ansawdd, lle’r oedd asesiad o anghenion pob gofalwr yn cael ei adolygu a’i awdurdodi gan y Cydlynydd Gofalwyr. Dywedodd y Cyngor bod y Gwasanaeth Gofalwyr hefyd yn cynnal trafodaethau myfyriol i ganiatáu i staff drafod yr asesiadau a gwblhawyd. Dywedodd fod y prosesau hyn yn caniatáu i’r Cyngor adnabod arferion da a meysydd i’w gwella.

22. O ran monitro parhaus ynghylch a yw anghenion gofalwr yn parhau i gael eu diwallu, dywedodd y Cyngor, ar gyfer asesiadau Rhan 1, nad oedd proses ffurfiol, ond y byddai’n cael ei monitro’n anffurfiol yn ystod grwpiau cefnogi gofalwyr, sgyrsiau ar-lein a galwadau ffôn ac y byddai’r monitro anffurfiol hwn yn parhau nes byddai’r Gweithiwr Cymorth Gofalwyr yn fodlon y byddai’r cymorth sydd ar waith yn gweithio ac y byddai’r achos yn cael ei gau, gyda’r gofalwr yn cael gwybod bod croeso iddo geisio rhagor o gymorth. Dywedodd y Cyngor, o bryd i’w gilydd, ac mewn amgylchiadau penodol iawn, fod y gefnogaeth a ddarperir gan y Gwasanaeth Gofalwyr yn dod i ben pan ystyrir na all y Gwasanaeth Gofalwyr ddarparu unrhyw gefnogaeth bellach. Dywedodd ei fod, mewn amgylchiadau o’r fath, yn sicrhau bod y gofalwr yn cael cymorth gan wahanol weithwyr proffesiynol i’w cefnogi yn y tymor hwy. Dywedodd y Cyngor, lle’r oedd asesiad Rhan 2 wedi’i gwblhau a bod Cynllun Cefnogi Gofalwyr yn ei le, y byddai adolygiad ffurfiol yn cael ei gynnal, fel arfer ochr yn ochr â’r person sy’n derbyn gofal.

23. Dywedodd y Cyngor y bydd staff y Gwasanaeth Gofalwyr yn monitro a yw gofalwr yn fodlon â chanlyniad eu hasesiadau anghenion, drwy ofyn iddynt ar ddiwedd eu hasesiad.

Dywedodd ei fod yn gyfle i'r gofalwr sicrhau bod cofnod yn cael ei wneud os nad oedd yn cytuno â chanlyniad yr asesiad ac y byddai'r gofalwr hefyd yn cael gwybod sut i wneud cwyn.

24. Dywedodd Cyngor Sir Caerffili, wrth gasglu data ar gyfer yr ymchwiliad hwn, ei fod wedi dod i'r amlwg bod gan ei system rheoli achosion, WCCIS, allu cyfyngedig o ran rhai o'r adroddiadau yr oedd yn ceisio'u cael. Dywedodd fod hyn yn rhwystredig ac yn siomedig, ond roedd y Cyngor yn gweld hyn fel cyfle i wella'r broses adrodd yn y dyfodol.

25. Dywedodd y Cyngor bod ganddo staff sy'n gallu cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr yn Gymraeg a bod gwasanaethau cyfieithu, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain, ar gael i unrhyw ofalwyr nad Cymraeg neu'r Saesneg oedd eu dewis iaith. O ran canfod a oes gan ofalwr anghenion ychwanegol i'w alluogi i gymryd rhan lawn yn yr asesiad, dywedodd y Cyngor y byddai staff yn gofyn yn sensitif i'r gofalwr a oedd angen unrhyw gymorth ychwanegol arno i gwblhau'r asesiad, a allai hefyd ddangos bod gan y gofalwr anghenion gofalwr a chymorth drwy ei hawl ei hun.

26. Gofynnwyd i'r Awdurdodau Ymchwilio hefyd ddarparu'r data cydraddoldeb a gofnodwyd ar gyfer gofalwyr yr aseswyd eu hanghenion yn 2022/2023 i'r ymchwiliad. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fod tynnu data cydraddoldeb o'i system rheoli achosion wedi bod yn broblematig ac roedd anghysondebau yn yr adroddiadau.

27. Darparodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ddata gofalwyr, gan gynnwys oed, rhyw, ethnigrwydd, dewis iaith, statws priodasol a chrefydd. Ni chofnodwyd unrhyw ddata ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol nac anabledd. O'r gofalwyr hynny yr aseswyd eu hanghenion, roedd 67% yn oedolion sy'n ofalwyr, roedd 1% yn oedolion ifanc sy'n ofalwyr (18-25 oed) a 32% yn ofalwyr ifanc. Roedd 45% o'r gofalwyr dros 55 oed. O ran rhywedd, roedd 75% o ofalwyr sy'n oedolion yn fenywaidd a 25% yn wrywaidd, ac, ar gyfer gofalwyr ifanc, roedd 59% yn fenywaidd a 41% yn wrywaidd. Lle cofnodwyd ethnigrwydd (sef mewn 87% o'r rhai yr aseswyd eu hanghenion), cofnodwyd bod 94% yn Wyn, 4% yn Gymreig a 2% o 'unrhyw' gefndir ethnig arall'. Cofnodwyd dewis iaith 51% o'r rhai yr aseswyd eu hanghenion, gyda 99% yn ffafrio Saesneg. Ni chofnodwyd y Gymraeg fel dewis iaith ar gyfer unrhyw un o'r gofalwyr yr aseswyd eu hanghenion.

28. Oherwydd sylwadau a wnaed gan ofalwyr a ddarparodd eu tystiolaeth profiad bywyd i'r ymchwiliad hwn, gofynnwyd i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili am wybodaeth

mewn perthynas â gofalwyr yn methu â chyflogi Cynorthwyydd Addysgu o ysgol eu plentyn fel Cynorthwyydd Personol, gan ddefnyddio eu Taliadau Uniongyrchol. Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, pan ddechreuodd Taliadau Uniongyrchol gael eu defnyddio am y tro cyntaf gyda theuluoedd plant anabl, bod teuluoedd wedi cysylltu'n reddfol â staff yr ysgol, fel dewis cyntaf, i'w cefnogi mewn rôl Cynorthwyydd Personol, ond bod hyn, yn anffodus, wedi achosi nifer o broblemau, gan gynnwys gwanhau ffiniau proffesiynol i'r gweithiwr, y plentyn a'i deulu; gwrthdaro rhwng buddiannau yn effeithio ar yr angen i staff allu gweithio'n hyblyg yn yr ysgol, a Chynorthwywyr Addysgu yn cynnig gweithio gyda nifer o blant, a achosodd nifer o broblemau. Dywedodd y Cyngor, cyn pandemig COVID-19, fod pennaeth wedi gofyn i deuluoedd beidio â chael eu cyfeirio at yr ysgol i ganfod Cynorthwywyr Personol, er eu bod yn gwneud hyn ohonynt eu hunain, ac y gofynnwyd wedyn i'w cynghori i beidio â gwneud hynny. Dywedodd y Cyngor, o ganlyniad, ei fod bellach yn cynghori teuluoedd, oherwydd gwrthdaro rhwng buddiannau yn ymwneud â'u cyflogaeth a'r ffiniau aneglur, nad ydynt yn gofyn i Gynorthwywyr Addysgu o ysgol eu plant i ddod yn weithiwr Taliadau Uniongyrchol, gyda'r rhesymeg yn cael ei egluro iddynt. Dywedodd y Cyngor nad oedd hyn yn atal gofalwyr rhag recriwtio Cynorthwyydd Addysgu o ysgol wahanol. Dywedodd y Cyngor bod ei Gynghorwyr Taliadau Uniongyrchol wedi eu hyfforddi i gefnogi teuluoedd gyda hysbysebu, recriwtio a hyfforddi unrhyw staff penodedig.

### Tystiolaeth gan staff

29. Darparwyd manylion staff awdurdodau lleol sy'n darparu IAA ac sy'n cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr gan bob un o'r Awdurdodau yr ymchwiliwyd iddynt. Gofynnwyd i staff o'r darparwyr gwasanaeth a gomisiynwyd, Gofalwyr Ceredigion, NEWCIS, Adferiad a Gwasanaeth Gofalwyr Castell-nedd Port Talbot, gymryd rhan yn yr ymchwiliad a darparu tystiolaeth. Gofynnwyd am y dystiolaeth drwy arolygon ar-lein. Gwnaed addasiad rhesymol[1] i ganiatáu i 1 aelod o staff ddarparu eu tystiolaeth ar lafar.

[1] Newid a wnaed i ddileu neu leihau anfantais sy'n gysylltiedig ag anabledd rhywun.

30. Mae'r tabl isod yn crynhoi nifer y staff a holwyd, a nifer yr ymatebion a dderbyniwyd:

| | Ardal Awdurdod Lleol | Nifer y staff a holwyd | Nifer yr ymatebion a dderbyniwyd (*) | Cyfradd ymateb (**) |
|---|---|---|---|---|
| **Staff Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth** | Caerffili | 16 | 5 | 31% |
| | Ceredigion | 22 | 19 | 86% |
| | Sir y Fflint | 10 | 7 | 70% |
| | Castell-nedd Port Talbot | 6 | 0 | 0% |
| **Staff lle mae asesiadau o anghenion gofalwyr yn rhan o'u rôl** | Caerffili | 168 | 92 (8) | 55% (50%) |
| | Ceredigion | 42 | 20 (2) | 48% (43%) |
| | Sir y Fflint | 14 | 9 | 64% |
| | Castell-nedd Port Talbot | 227 | 31 (11) | 14% (9%) |
| **Staff darparwr gwasanaeth wedi'i gomisiynu sy'n cwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr** | Caerffili*** | Amh | Amh | Amh |
| | Ceredigion | 3 | 2 | 67% |
| | Sir y Fflint | 10 | 9[2] | 90% |
| | Castell-nedd Port Talbot | 4 | 3 | 75% |

* Ymatebion anghyflawn

** Cyfradd ymatebion i'r holiadur a gwblhawyd

*** Dim gwasanaethau wedi'u comisiynu

**Staff Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth**

31. O'r ymatebion a dderbyniwyd, dim ond 1 ymatebydd ddywedodd eu bod wedi cael hyfforddiant ar sut i gynnal asesiadau o anghenion gofalwyr. Dywedodd ymatebwyr eraill eu bod wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu, diogelu data a dieithrio rhieni ond nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant ynghylch asesu anghenion gofalwyr, gan nad oeddent wedi'u cwblhau. Roedd rhai o'r ymatebwyr yn teimlo bod yr hyfforddiant a gawsant yn eu helpu yn eu rôl mewn perthynas ag asesu anghenion gofalwyr, ond nid oedd y rhan fwyaf. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gwybod ble i ddod o hyd i'r broses ar gyfer asesu anghenion gofalwyr ac yn dweud ei bod yn hygyrch iawn ac yn ddealladwy.

[2] Un ar absenoldeb mamolaeth

32. Dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod yn cynnig gwasanaeth Cymraeg. Dywedodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr y gallent gael gafael ar wasanaethau cyfieithu ar gyfer gofalwyr nad Cymraeg neu Saesneg oedd eu dewis iaith, gydag eraill yn ansicr ac angen cael cyngor gan gydweithwyr.

33. Dywedodd ymatebwyr y gallai gofalwyr gysylltu â'u gwasanaeth wyneb yn wyneb, dros y ffôn, e-bost a neges destun i helpu gydag unrhyw anawsterau cyfathrebu a allai fod ganddynt. Dywedodd staff y gallent hefyd ofyn am ganiatâd i siarad â’u teulu i sicrhau bod y dull neu’r dewis cyfathrebu yn diwallu eu hanghenion. Dywedodd ymatebwyr eraill y byddent yn addasu eu dull cyfathrebu, peidio â defnyddio iaith gymhleth a darparu taflenni gwybodaeth i gynorthwyo’r rhai sydd ag anawsterau cyfathrebu.

34. Nid oedd yr ymatebwyr yn teimlo bod yna rwystrau i asesu anghenion gofalwyr yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Dywedodd un ymatebydd fod rhai gofalwyr wedi gofyn am ymweliad cartref ar gyfer eu hasesiad cychwynnol, ond nid oedd hyn yn rhywbeth a gynigir ar hyn o bryd.

**Staff asesu anghenion gofalwyr**

35. Dywedodd ymatebwyr eu bod yn cynnig asesiadau o anghenion gofalwyr pan fo hynny’n berthnasol a’u bod yn gwneud atgyfeiriadau ar gyfer asesiadau o anghenion gofalwyr os canfyddir anghenion. Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at gymryd camau i atal argyfwng. Mae’r ymatebion yn dangos bod rheolwyr yn disgwyl i asesiadau o anghenion gofalwyr gael eu cynnig pan fydd gofalwyr anffurfiol yn cael eu nodi, pan fydd staff yn gweithio gydag unigolion a theuluoedd. Dywedodd rhai ymatebwyr eu bod yn ymgorffori lles ac anghenion gofalwr mewn Asesiad Integredig ar gyfer y person sy’n derbyn gofal a’u bod yn cynnig asesiad o anghenion gofalwr ar wahân. Dywedodd rhai ymatebwyr y gall gofalwyr ddewis a ddylid cynnwys eu barn yn yr Asesiad Integredig neu gael asesiad o’u hanghenion ar wahân. Dywedodd ymatebwyr fod gofalwyr yn tueddu i ffafrio cynnwys eu hasesiadau o anghenion yn yr Asesiadau Integredig ar gyfer y sawl sy’n derbyn gofal. Dywedodd ymatebwyr eu bod yn atgyfeirio rhieni sy’n ofalwyr at y Tîm Gofalwyr i’w hasesu.

36. Dywedodd ymatebwyr, pan ofynnwyd am asesiad o anghenion gofalwr ar wahân (lle nad oedd Gwaith Cymdeithasol yn ymwneud â’r person sy’n derbyn gofal), bod y Tîm Gofalwyr yn ymateb iddynt.

37. O ran hyfforddiant, dywedodd llawer o'r ymatebwyr fod ganddynt brofiad yn eu rôl a'u bod wedi mynychu hyfforddiant Ymwybyddiaeth Gofalwyr yn 2022. Dywedasant, os oeddent yn ansicr o gwbl, eu bod yn gallu gofyn am gyngor gan y Tîm Gofalwyr. Dywedodd ymatebwyr eraill eu bod wedi derbyn cyrsiau hyfforddiant mewn perthynas â chefnogi gofalwyr, profedigaeth gofalwyr a dull asesu seiliedig ar ganlyniadau o ran hyfforddiant gofalwyr. Dywedodd ymatebwyr eu bod yn cael diweddariadau rheolaidd gan y Tîm Gofalwyr am y cymorth sydd ar gael i ofalwyr a'u bod yn gallu trafod unrhyw asesiadau a gwblhawyd gyda'r Tîm Gofalwyr a chyfarfodydd y Tîm Gwaith Cymdeithasol. Dywedodd un ymatebydd fod hyfforddiant Cyfathrebu Cydweithredol yn cwmpasu eu holl waith. Dywedodd ymatebydd arall ei fod wedi cwblhau sesiynau myfyriol ac wedi cysgodi ymweliad asesu gydag aelod o'r Tîm Gofalwyr.

38. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr nad oeddent wedi cael unrhyw hyfforddiant penodol mewn perthynas â chwblhau asesiadau o anghenion gofalwyr a dywedodd cyfran fawr o'r staff a oedd wedi cael rhywfaint o hyfforddiant ei fod ond eu helpu i gyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas ag asesu anghenion gofalwyr i ryw raddau. Dywedodd ymatebwyr y byddai hyfforddiant pellach yn cael ei groesawu ac y gellid cryfhau'r broses ar gyfer cynnal asesiadau o anghenion gofalwyr drwy hyfforddiant mwy uniongyrchol a phenodol.

39. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr yn dangos dealltwriaeth dda o ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Dywedodd un, er y gellid cyfuno asesiadau, eu bod o'r farn y dylid cynnal asesiad gofalwr ar wahân ac y dylid rhoi amser i hyn ddigwydd ar wahân i'r sawl sy'n derbyn gofal. Dywedasant, pan gyfunwyd asesiadau, fod y ffocws yn aml ar y canlyniadau yr oeddent yn dymuno eu sicrhau i'r person sy'n derbyn gofal a bod angen amser i nodi'r hyn yr oeddent yn dymuno'i gyflawni fel gofalwr. Dywedodd ymatebydd arall fod asesu anghenion gofalwr yn ystod Asesiad Integredig yn teimlo fel gwrthdaro rhwng buddiannau. Dywedodd ymatebydd eu bod yn ymdrin ag asesiadau o anghenion gofalwyr fel sgyrsiau 'Beth sy'n Bwysig', ac nad yw pobl felly yn teimlo eu bod yn cael eu hasesu. Dywedodd un ymatebydd fod gan unrhyw un dros 18 oed hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn gwybod ble i ddod o hyd i'r broses ar gyfer asesu anghenion gofalwyr ac yn dweud ei bod yn hygyrch iawn ac yn ddealladwy.

40. Dywedodd ymatebwyr eu bod yn gwneud 'Cynnig Rhagweithiol' i ddarparu gwasanaeth Cymraeg i ofalwyr heb i rywun orfod gofyn amdano, i gefnogi gofalwyr y mae'r

Gymraeg yn ddewis iaith iddynt. Dywedodd ymatebwyr fod y llenyddiaeth a ddarperir i ofalwyr yn ddwyieithog a bod staff Cymraeg a mynediad at gyfieithwyr ar gael i gefnogi’r defnydd o’r Gymraeg. Dywedodd un ymatebydd, er ei fod yn ymwybodol o’r Cynnig Rhagweithiol, ei fod yn ansicr ynghylch y broses, petai gofalwr am ei dderbyn.

41. Dywedodd un ymatebydd nad oedd pob cleient yr oeddent wedi gweithio gyda hwy, yr oedd y Gymraeg yn ddewis iaith iddynt, wedi gofyn am gyfathrebu yn Gymraeg oherwydd eu bod yn deall ei fod yn debygol o oedi’r broses o dderbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Dywedodd ymatebydd arall eu bod bob amser yn cynnig y gwasanaeth yn Gymraeg ond y byddai oedi oherwydd nifer cyfyngedig o siaradwyr Cymraeg. Dywedodd ymatebydd arall, pe bai gofalwr yn derbyn Cynnig Rhagweithiol, ei fod yn ansicr a fyddai unrhyw un ar gael i’w roi ar waith.

42. O ran ieithoedd ar wahân i Gymraeg a Saesneg, dywedodd ymatebwyr y gellid defnyddio cyfieithwyr a ‘Llinell Iaith’, gan gynnwys ar gyfer Iaith Arwyddion Prydain. Dywedodd rhai ymatebwyr nad oeddent wedi delio â rhywun a oedd wedi gofyn am gael defnyddio’r gwasanaeth mewn iaith heblaw’r Gymraeg neu’r Saesneg o’r blaen, ac y byddent yn gofyn am gyngor gan reolwr tîm. Dywedodd rhai ymatebwyr nad oeddent yn gwybod pa gefnogaeth oedd ar gael i ofalwyr nad Cymraeg na Saesneg oedd eu dewis iaith.

43. O ran gofalwyr ag anawsterau cyfathrebu, dywedodd rhai ymatebwyr y byddent yn cynnig cefnogaeth eiriolaeth ac yn defnyddio dulliau cyfathrebu eraill, fel lluniau, synau ac iaith y corff a thrwy siarad â’r rheini a oedd yn adnabod y gofalwr yn dda. Roeddent yn dweud y gallent hefyd ddefnyddio pecynnau chwyddo llais i gefnogi’r rheini sy’n drwm eu clyw. Dywedodd ymatebwyr y gallent gael cyngor a chymorth gan y tîm Therapi Iaith a Lleferydd a'r Tîm Adsefydlu Rhai â Nam ar y Golwg. Dywedodd llawer o ymatebwyr eu bod yn addasu eu dull cyfathrebu ac yn rhoi mwy o amser i’r gofalwr, yn defnyddio dogfennau Hawdd eu Darllen (system sy'n seiliedig ar luniau i helpu rhai sydd ag anawsterau dysgu i’w deall) ac yn rhoi sicrwydd i'r gofalwr. Cyfeiriodd un ymatebydd at Gynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor, sy’n nodi cyfrifoldebau’r Cyngor i unrhyw un sydd ag anawsterau cyfathrebu.

44. Nododd yr ymatebwyr nifer o rwystrau sy’n atal gofalwyr rhag cael asesiad o'u hanghenion. Sef:

- Rhai gofalwyr ddim yn ystyried eu hunain yn ofalwr.

- Diffyg hysbysebu gwybodaeth am hawliau gofalwyr a chefnogaeth i ofalwyr.
- Dim preifatrwydd i ofalwyr fod yn onest am eu rôl gofalu a'i effaith arnynt.
- Gofalwyr ddim yn cael yr amser i gael eu hasesu oherwydd gwaith a'u cyfrifoldebau gofalu ac yn treulio unrhyw amser rhydd sydd ganddynt yn effeithiol.
- Gofalwyr yn diystyru eu hanghenion eu hunain.
- Gofalwyr yn aml yn cwestiynu pwrpas asesu eu hanghenion eu hunain ac yn teimlo na fydd unrhyw beth yn newid. Yn aml, roedd cymorth ymarferol yn cael ei ddarparu fel rhan o gynllun gofal a chymorth y person sy’n derbyn gofal, felly gellid ystyried asesiad o anghenion gofalwr fel ymarfer papur.
- Nid oedd gweithwyr proffesiynol bob amser yn cynnig asesiad o anghenion gofalwr nac yn egluro ei werth.
- Efallai na fydd Gweithwyr Cymdeithasol yn cynnig asesiad o anghenion gofalwr am eu bod yn ofni creu disgwyliad na allant ei fodloni.
- Diffyg gwybodaeth am y Tîm Gofalwyr o fewn y Cyngor.

45. Dywedodd nifer o ymatebwyr nad oedd unrhyw rwystrau i ofalwyr gael cynnig asesiad o anghenion gofalwyr ond roedd rhwystrau rhag cynnig cymorth i fodloni eu canlyniadau, oherwydd diffyg adnoddau, er enghraifft, toriadau i ofal dydd, gwasanaethau gwarchod, seibiant a diffyg gofal ffurfiol. Dywedodd ymatebwyr fod y diffyg cefnogaeth wedi arwain at lethu gofalwyr oherwydd nad oedd unrhyw seibiant ar gael.

46. Mewn sylwadau eraill, dywedodd ymatebwyr fod angen mwy o hyfforddiant i feithrin hyder staff newydd ac i staff yn gyffredinol wybod pa gymorth oedd ar gael i ofalwyr. Roedd yr ymatebwyr yn canmol gwaith y Tîm Gofalwyr ac yn dweud eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm a’u bod yn gallu dibynnu arnynt am gymorth a chyngor. Roedd rhai ymatebwyr yn teimlo bod angen gwell proffil cymdeithasol ar y Tîm Gofalwyr, nid yn unig ar y cyfryngau cymdeithasol, ond mewn mannau lle gall gofalwyr o bob oed a gallu gael mynediad atynt, er enghraifft, mewn meddygfeydd a chanolfannau cymunedol. Teimlai llawer o’r ymatebwyr y dylai’r Tîm Gofalwyr gwblhau mwy o asesiadau o anghenion gofalwyr, neu bob un ohonynt, nid dim ond ar gyfer gofalwyr nad ydynt yn hysbys i’r Gwasanaethau Cymdeithasol.

47. Tynnodd un ymatebydd sylw at yr oedi cyn cytuno ar becynnau gofal a chymorth a’u bod yn aml yn cael eu cwtogi cyn cytuno arnynt, a arweiniai at fwy o bwysau ar ofalwyr. Roeddent yn dweud bod y diffyg cymorth wedi arwain at sefyllfaoedd yn dirywio a mwy o

angen am gymorth ar gyfer y sawl sy'n derbyn gofal.  Dywedasant, pe gellid cynyddu'r cymorth i ofalwyr, y byddai'r canlyniadau'n gwella i'r gofalwr ac i'r sawl sy'n derbyn gofal.

## Tystiolaeth gan y rheini sydd â phrofiad bywyd

### Gofalwr A – Caerffili

48. Mae Gofalwr A yn rhiant ofalwr.  Dywedodd ei bod wedi clywed ar lafar bod ganddi hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr.  Dywedodd Gofalwr A fod anghenion ei phlentyn wedi cynyddu wrth iddo fynd yn hŷn a'i bod yn fwyfwy anodd trefnu i rywun ofalu am ei phlentyn pan oedd angen i Ofalwr A fynd i apwyntiadau iechyd.  Dywedodd Gofalwr A, er ei bod wedi mynychu llawer o apwyntiadau iechyd, gan gynnwys gyda'i phlentyn, na ddywedodd unrhyw feddyg nac ymwelydd iechyd wrthi am ei hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr.

49. Cysylltodd Gofalwr A â'r Cyngor i ofyn am asesiad o anghenion gofalwr a chwblhawyd yr asesiad o fewn ychydig wythnosau.  Dywedodd Gofalwr A na chynigiwyd eiriolaeth iddi i'w chefnogi gyda'i hasesiad.

50. Dywedodd Gofalwr A mai canlyniad yr asesiad oedd ei bod wedi cael manylion boreau coffi i ofalwyr, ei bod wedi cael ei hychwanegu at dudalen Facebook y Cyngor ar gyfer gofalwyr, ei bod wedi cael cynnig Taliadau Uniongyrchol a bod gweithiwr cymorth wedi cael ei neilltuo iddi. Dywedodd Gofalwr A ei bod yn anodd mynd i foreau coffi yn ystod gwyliau'r ysgol am nad oedd y lleoliad yn hygyrch.  Dywedodd Gofalwr A mai gwyliau ysgol oedd yr "amser gwaethaf" gan fod ganddi anawsterau iechyd meddwl ei hun ac roedd angen seibiant arni.  Dywedodd Gofalwr A, er bod mynychu cynllun chwarae yn ystod gwyliau'r ysgol yn rhan o gynllun gofal a chymorth ei phlentyn, nad oedd y ddarpariaeth yn ddigonol i roi seibiant iddi o'i rôl gofalu yn ystod gwyliau'r ysgol.  Dywedodd Gofalwr A nad oedd yn gallu manteisio ar y Taliadau Uniongyrchol a gynigiwyd gan fod yn rhaid iddi dalu ei hyswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus ei hun ac nad oedd yn gallu dod o hyd i Gynorthwyydd Personol i'w gyflogi oherwydd prinder.  Dywedodd Gofalwr A ei bod wedi awgrymu y gallai Cynorthwyydd Addysgu o ysgol ei phlentyn fod wedi bod yn addas ar gyfer y rôl yn ystod gwyliau'r ysgol, ond dywedodd y Cyngor wrthi nad oedd hyn yn cael ei ganiatáu.

51. Dywedodd Gofalwr A nad oedd yn fodlon ar ganlyniad ei hasesiad, gan nad oedd yr anghenion a nodwyd wedi cael eu diwallu.  Roedd Gofalwr A o'r farn bod y cymorth sydd ar

gael i ofalwyr wedi'i anelu'n fwy at y rheini sy'n gofalu am oedolion a phobl hŷn.  Dywedodd Gofalwr A na roddwyd copi iddi o'i hasesiad ond ei bod wedi cael copi, ar gais.  Dywedodd Gofalwr A nad yw ei hanghenion wedi cael eu hailasesu.

52. Dywedodd Gofalwr A na allai ddibynnu ar y cymorth a ddarperir gan y Tîm Gofalwyr a bod angen bod yn fwy agored a thryloyw o lawer ynghylch y cymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl.

**Gofalwr B – Caerffili**

53. Mae Gofalwr B yn gofalu am blentyn sy'n oedolyn ac mae ganddi swydd.  Dywedodd Gofalwr B fod ei swydd yn achosi straen, nad oedd bob amser gartref, ac roedd cael y cydbwysedd iawn yn anodd; dywedodd ei bod yn byw ar ei nerfau drwy'r amser. Dywedodd Gofalwr B na allai gofio cael unrhyw drafodaethau am ei hanghenion hi fel gofalwr, tan iddi gael cyfarfod Adolygu ychydig cyn cael ei chyfweld gan yr ymchwiliad hwn pan oedd staff yn bryderus ynghylch a oedd angen cymorth arni hi, fel gofalwr.  Dywedodd Gofalwr B, gan fod cynifer o enwau gwahanol ar gyfer gwahanol weithdrefnau, fod yr hyn yr oedd aelod o staff yn canolbwyntio arno yn ystod cyfarfod yn gallu bod yn ddryslyd. Dywedodd Gofalwr B, pan fyddai rhywun yn gofyn iddi sut roedd pethau'n mynd, ei bod bob amser yn gadarnhaol iawn gan ei bod yn gweithio'n galed i sicrhau canlyniad cadarnhaol i'w phlentyn.  Dywedodd Gofalwr B y byddai'n neges wahanol iawn petai'r sgwrs yn ymwneud â safbwynt y gofalwr yn unig, ond nad oedd neb wedi gofyn iddi hi'n uniongyrchol.

54. Dywedodd Gofalwr B fod yr asesiadau bob amser wedi canolbwyntio ar ei phlentyn a sut roedd Gofalwr B yn llwyddo i weithio.   Dywedodd Gofalwr B ei bod bellach yn cydnabod bod cynifer o faterion perthnasol eraill sy'n effeithio ar ei rôl fel gofalwr, e.e. galar, straen, gorbryder, iselder a'r menopos a bod ei hanghenion hi, fel gofalwr, wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd. Ond nid oedd y materion hyn erioed wedi cael eu hystyried gan unrhyw asesiad ac roedd hi wedi delio â nhw fel "pethau sy'n digwydd mewn bywyd",pethau nad oeddent o reidrwydd yn effeithio ar ei rôl fel gofalwr, ond a oedd yn gwneud bywyd yn fwy anodd ac a allai effeithio ar y plentyn yr oedd yn gofalu amdano. Dywedodd Gofalwr B fod colli anwyliaid wedi gwneud iddi gwestiynu beth fyddai'n digwydd i'w phlentyn ymhen blynyddoedd pan fyddai hi'n marw, ond nid oedd cymorth ar gael iddi.

55. Dywedodd Gofalwr B petai'n gwybod cyn y cyfarfod Adolygu diweddar y byddai rhywun yn holi a oedd angen cymorth arni fel gofalwr y byddai wedi gallu paratoi ar gyfer y cyfarfod ac y byddai wedi bod yn agored ac wedi dweud rhywbeth gwahanol. Dywedodd Gofalwr B fod ei chyflogwr yn amyneddgar iawn, ond roedd hi'n poeni am ba hyd y byddai hyn yn para a bod ei rôl gofalu yn ei hatal rhag datblygu ei gyrfa.

56. Dywedodd ei bod wedi clywed drwy fforymau ar Facebook fod ganddi hawl i gael asesiad o anghenion gofalwr. Dywedodd ei bod yn dal i weld pobl yn gofyn ar fforymau gofalwyr am asesiadau o anghenion gofalwr ac a fyddai ganddynt hawl i gael un.

57. Dywedodd Gofalwr B fod pethau wedi newid pan ddaeth ei phlentyn yn oedolyn a bod gofalu am blentyn sy'n oedolyn wedi gwneud ei bywyd yn haws gan fod y gwasanaethau a oedd ar gael yn well o lawer. Dywedodd Gofalwr B, unwaith yr oedd ei phlentyn yn oedolyn, ei bod yn sylweddoli y gallai gael seibiant, er ei bod yn ansicr a oedd y ddarpariaeth seibiant yn rhan o gynllun gofal a chymorth ei phlentyn sy'n oedolyn, neu'n rhan o'i chynllun cymorth hi, fel gofalwr.

58. Yn yr un modd, dywedodd Gofalwr B eu bod yn derbyn Taliadau Uniongyrchol, ond bod y rheini'n rhan o gynllun gofal a chymorth ei phlentyn sy'n oedolyn yn hytrach na bod yn rhan o'i chynllun cymorth hi fel gofalwr.

59. Dywedodd Gofalwr B nad oes ganddi amser weithiau i drefnu gwneud unrhyw beth gyda'r Taliadau Uniongyrchol, a phan fyddai hi'n gwneud hynny, byddai fel arfer er mwyn iddi allu mynd i'r gwaith. Dywedodd Gofalwr B nad oedd yn gallu manteisio'n llawn ar y Taliadau Uniongyrchol gan ei bod yn eu defnyddio yn ystod gwyliau'r coleg er mwyn iddi allu gweithio. Dywedodd Gofalwr B mai ychydig iawn o seibiant oedd ganddi yn ystod ei hamser ei hun. Dywedodd Gofalwr B, yn ystod y pandemig, yn dilyn sgwrs â Gofalwyr Cymru, ei bod wedi cael gwybod am grantiau a oedd ar gael i ofalwyr a'i bod wedi cael grant bach i'w galluogi i gael seibiant byr.

60. Dywedodd Gofalwr B ei bod yn teimlo bod staff Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor yn ei chefnogi'n dda a'i bod yn teimlo bod rhywun yn gwrando arni. Dywedodd Gofalwr B fod staff yn cydnabod ei bod yn ceisio parhau i weithio a bod staff y Cyngor fel petaent yn parchu hynny. Yn ôl Gofalwr B, roedd y "Cyngor yn gwybod fy mod yn gwneud fy ngorau glas i beidio â mynd i ddyled".

61. Dywedodd Gofalwr B na chynigiwyd gwasanaethau eiriolaeth iddi ac na roddwyd copi iddi o'i hasesiad o anghenion gofalwr. Dywedodd Gofalwr B fod y cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn ei dewis iaith. Dywedodd Gofalwr B y byddai wedi elwa o gael aelod ar wahân o staff yn ystyried ei hanghenion fel gofalwr a'i bod o'r farn y dylai'r asesiad o anghenion gofalwr edrych ar lesiant y gofalwr yn ei gyfanrwydd, yn hytrach na dim ond ystyried a all y gofalwr barhau â'i rôl gofalu.

**Gofalwr C – Caerffili**

62. Mae Gofalwr C yn rhiant ofalwr ac mae hefyd yn darparu gofal i aelod o'r teulu sy'n oedolyn. Dywedodd mai'r tro diwethaf iddi gael asesiad o anghenion oedd rai blynyddoedd yn ôl ac, oherwydd yr anawsterau y mae wedi'u profi, ei bod wedi penderfynu peidio â gofyn am asesiad arall. Dywedodd Gofalwr C fod ei hanghenion wedi cael eu hasesu ychydig wythnosau ar ôl iddi ofyn am asesiad, yn ei dewis iaith, ochr yn ochr â rhai ei phlant gan nad oedd yn hawdd gwahaniaethu rhwng anghenion pob unigolyn. Dywedodd Gofalwr C ei bod wedi cael cynnig eiriolwr, ond nad oedd wedi ei ddefnyddio, er bod ei theulu wedi defnyddio gwasanaethau'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol ar gyfer ei phlant. Dywedodd Gofalwr C fod y Cyngor yn tueddu i wrando ar eiriolwr.

63. Dywedodd Gofalwr C na chafodd unrhyw beth o ganlyniad i'r asesiad, ac roedd hi'n siomedig iawn. Dywedodd Gofalwr C fod yr asesiad yn eithaf anodd ac nad oedd yn hawdd siarad am yr hyn yr oedd hi'n ei gael yn anodd, ond er iddi wneud hynny, nid oedd dim wedi newid. Dywedodd Gofalwr C ei bod wedi gofyn am asesiad o'i hanghenion pan sylweddolodd fod angen cymorth seibiant arni. Dywedodd Gofalwr C ei bod wedi cael cynnig Taliadau Uniongyrchol i ddarparu seibiant i Ofalwr C, ond ei bod hi wedi cael trafferth dod o hyd i Gynorthwyydd Personol am iddi gael gwybod na allai ddefnyddio Cynorthwywyr Addysgu oysgol ei phlant nac aelodau o'r teulu i gyflawni'r rôl. Yn ôl Gofalwr C, unwaith y daethpwyd o hyd i Gynorthwyydd Personol addas, dywedodd y Cyngor wrthi fod angen iddi ddechrau'r broses eto. Dywedodd Gofalwr C ei bod yn dal i gael gwybodaeth gan y Gwasanaeth Gofalwyr ond ei bod hefyd wedi cymryd amser i ddod o hyd i wybodaeth drosti hi ei hun.

64. Dywedodd Gofalwr C ei bod yn teimlo nad oedd y gwasanaethau'n gydgysylltiedig. Aeth Gofalwr C ati i ganmol y modd y cwblhaodd yr aelod o staff yr asesiad. Dywedodd fod yr aelod o staff o'r Tîm Gofalwyr yn poeni ac yn deall ei hanghenion ac yn awyddus i helpu, ond ar ôl i'r asesiad gael ei drosglwyddo i'r Gwasanaethau Cymdeithasol, ddaeth dim byd

ohono.  Dywedodd Gofalwr C, ar un achlysur, pan oedd hi'n cael trafferth mynd i apwyntiad iechyd ar gyfer un plentyn, fod y Cyngor wedi cytuno i'r Cynorthwyydd Personol oedd ganddi ar gyfer un plentyn ofalu am y plentyn arall, er mwyn iddi allu mynd i'r apwyntiad iechyd.

65. Dywedodd Gofalwr C ei bod wedi cael copi o'i hasesiad ar ôl gofyn am gopi.